Dŵr Afliwiedig

Fel arfer bydd dŵr yfed o'r tap yn edrych yn glir a chroyw, heb unrhyw ronynnau amlwg ynddo. Ar adegau prin gall ymddangos yn felyn, oren, brown, cymylog neu ddu. Gan amlaf bydd hynny'n digwydd ar ôl symud dyddodion rhwd fydd wedi ffurfio wrth i gyflwr pibell ddŵr waethygu dros amser. Gall dŵr yfed o wahanol ffynonellau gynnwys lefelau amrywiol o haearn neu fanganîs sy'n bresennol yn naturiol a gall rheiny setlo o fewn y rhwydwaith dŵr. O dan amgylchiadau arferol, ni fydd eu presenoldeb yn effeithio ansawdd y dŵr ond pan fydd rhaid gwneud gwaith cynnal a chadw ar y rhwydwaith gall ansefydlogi'r dyddodion hyn ac effeithio golwg y dŵr.

Gall hynny hefyd ddigwydd os bydd pibell yn rhwygo, adeg gwaith rheolaidd megis agor a chau falfiau, galw estynedig am ddŵr ar ddiwrnodau poeth neu pan fydd angen llawer o ddŵr adeg digwyddiad arbennig ee taclo tân. Yn ogystal, gall cyflwr y pibellau'n cysylltu â'ch cartref neu o fewn y tŷ effeithio golwg y dŵr o'r tap.

Ydy dŵr afliwiedig yn achosi niwed?
Ni fydd dŵr yn cynnwys gronynnau haearn a manganîs yn debyg o fygwth iechyd pobl, ond bydd yn werth osgoi defnyddio'r fath ddŵr wrth baratoi bwyd neu boteli babanod.

Gall dŵr afliwiedig achosi niwsans wrth effeithio'r lliw a blas ac, ar rai adegau, gall liwio dillad londri. Os bydd hynny'n digwydd, gwiriwch fod y dŵr tap yn glir ac yna ail-olchwch y dillad gan ddilyn y cyngor syml isod:

- Cadw'r dillad yn llaith a rhedeg y tap tan i'r dŵr droi'n glir
- Defnyddio glanedydd synthetig yn hytrach na sebon naturiol
- Peidio ychwanegu cannydd
- Peidio berwi'r dillad
- Rinsio'r dillad â llaw

Ymateb Dŵr Cymru i ddŵr afliwiedig
Os bydd pibell rhwydwaith yn rhwygo neu ddigwyddiad mawr arall yn effeithio golwg y dŵr, byddwn yn cymryd samplau yn yr ardaloedd perthnasol er mwyn profi'r lefelau haearn a manganîs. Os yn datgelu lefelau uchel, byddwn yn parhau i brofi'r dŵr tan i'r lefelau ddychwelyd i'r normal. Weithiau, gall dŵr barhau'n afliwiedig mewn adeiladau ar ffiniau ein rhwydwaith dosbarthu a bryd hynny dylai cwsmeriaid ein galw er mwyn glanhau'r pibellau ac adfer cyflenwad dŵr clir.

Os bydd eich dŵr yn newid lliw
Fel arfer bydd dŵr yn clirio ar ôl rhedeg y tap am ychydig funudau, ond os na fydd y broblem wedi diflannu ar ôl tua 45 munud, galwch ein llinell gymorth **0800 052 0130**. Bydd hefyd yn werth holi cymdogion i weld os ydynt yn dioddef o'r un broblem cyn cysylltu â ni.

Gwybodaeth bellach?
Galwch ein llinell gymorth **0800 052 0130**. Un o'n rheoleiddwyr, yr Arolygaeth Dŵr Yfed, sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd uchel cyflenwadau dŵr cyhoeddus. Gwefan **www.dwi.gov.uk**

Dŵr Cymru
Welsh Water